# Gemau cardiau symbolau

***Defnyddiwch ein pecyn symbolau hawliau mewn unrhyw ffordd sy'n addas i'ch grŵp. Dyma rai syniadau ar gyfer gemau/gweithgareddau y gallwch chi roi cynnig arni, ond cofiwch mae croeso i chi eu haddasu.***

**WWW.COMPLANTCYMRU.ORG.UK**

## Yr hawl coll

*Gêm dychmygus i helpu plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau.*

1. Dangoswch set fach o gerdiau i'r grŵp (3–6 cerdyn yn dibynnu ar allu'r plant).
2. Rhowch ychydig o funudau i'r plant astudio'r cerdiau. Gallant:
- Edrych ar y lluniau,
- Dywediwch yr hawl allan yn uchel,
- Sylwi ar y symbol a rhif yr erthygl.
3. Cuddiwch y cardiau gan cael gwared ar un cerdyn yn gyfrinachol.
4. Gofynnwch i'r grŵp: Pa hawl sydd ar goll?
5. Ailadroddwch gyda setiau gwahanol o gardiau i gyflwyno mwy o hawliau

Estyniadau:

- Gadewch i'r plant gymryd tro i guddio'r cerdyn fel bod eraill yn gorfod dyfalu.
- Cynyddwch nifer y cardiau wrth i'r plant ddod yn fwy hyderus.
- Defnyddiwch y gêm fel pwynt cychwyn iddysgu mwy am hawliau.

## Helfa Hawliau

*Gêm hwyl i gyflwyno hawliau i blant a phobl ifanc.*

**Sut i chwarae:**

1. Gosodwch rai o'r cardiau hawliau o gwmpas yr ystafell neu'r ardal awyr agored (tua 5 i ddechrau).
2. Dywedwch wrth y grŵp eu bod yn mynd ar "Helfa Hawliau."
3. Gweiddiwch allan un o'r hawl *(e.e. yr hawl i addysg)*.
   - gall y plant ddangos y cerdyn cyfatebol *(os oes gennych set arall)*
   - neu dynnu llun o'r symbol
   - neu actio/meimio symudiad sy'n cynrychioli'r symbol
4. Mae'r grŵp wedyn yn rhedeg at y cerdyn maen nhw'n meddwl sy'n cyfateb i'r hawl.
5. Ailadroddwch y broses gyda hawliau amrywiol.



**Estyniadau:**

- Rhowch y cardiau mewn llefydd sy'n cysylltu â'r hawl.

*Enghraifft: yr hawl i fwyd a dŵr glân (27) ar bwys tap, yr hawl i chwarae (31) mewn ardal chwarae, yr hawl i wybodaeth (17) ar bwys llyfr neu gyfrifiadur.*

- Gofynnwch i blant guddio'r cardiau hawliau i'r lleill ddod o hyd iddynt.
- Bob tro mae cerdyn yn cael i chwilio, ewch ati i drafod yr hawl a beth mae'r symbol yn ei olygu.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Be' yw'r pwysicaf?

*Gêm i helpu plant a phobl ifanc i archwilio a thrafod eu dealltwriaeth o hawliau.*

**Sut i Chwarae:**

1. Rhowch cwpwl o gardiau hawliau i bob plentyn, pâr neu grŵp bach.
2. Gofynnwch iddynt drefnu eu cardiau yn ôl eu pwysigrwydd. Gallant eu drefnu mewn unrhyw ffordd maen nhw'n ei hoffi, er enghraifft:
   - llinell o'r top i'r gwaelod
   - siâp diemwnt
   - cylch
3. Gwahoddwch y grwpiau i edrych ar sut mae pawb wedi trefnu eu cardiau
4. Anogwch drafodaeth am pam maen nhw wedi rhoi rhai hawliau'n uwch neu'n is.

**Estyniadau:**

- Cyfunwch grwpiau a'u cardiau. Sut fyddant yn trefnu'r cardiau nawr?
- Anogwch nhw i sylwi sut mae pawb a barn wahanol ac i feddwl a yw rhai hawliau bob amser yr un mor bwysig.

# Lluniau llonydd

*Gêm ddrama i helpu plant a phobl ifanc i archwilio hawliau trwy symudiad a dychymyg.*

**Sut i Chwarae:**

1. Rhannwch pawb i grwpiau  bach.
2. Rhowch gerdyn hawliau i bob grŵp *(neu gadewch iddynt ddewis un).*
3. Gofynnwch i'r grŵp greu "llun llonydd" sy'n dangos eu hawl.
   - Mae "llun llonydd" yn ddelwedd sefydlog gyda'u cyrff, fel golygfa wedi'i rhewi mewn perfformiad.
   - Anogwch nhw i feddwl am weithredoedd, mynegiadau a safleoedd sy'n cynrychioli'r hawl.
4. Pan fydd y grŵp yn barod, byddant yn cyflwyno eu llun llonydd i bawb arall.
5. Mae'r plant eraill yn dyfalu pa hawl sy'n cael i gyfleu.
6. Dangoswch y cerdyn a thrafodwch yn fyr beth mae'r hawl yn ei olygu.

**Estyniadau:**

- Gofynnwch i grwpiau greu dau lun llonydd: un sy'n dangos pan nad yw'r hawl yn cael ei pharchu, a'r llall pan mae'n cael ei pharchu.
- Gwahoddwch y gynulleidfa i "dapio mewn" a newid gyda rhywun yn y llun llonydd i ddangos syniad neu ddatrysiad gwahanol.
- Defnyddiwch y lluniau llonydd fel pwynt cychwyn ar gyfer perfformiadau byr i ddod â'r hawliau'n fyw.